

Ar wahân i'ch graddau a'ch geirdaon, y datganiad personol yw rhan bwysicaf eich Cais UCAS. Dyma bytiau o gyngor gan Gyrfa Cymru i'ch helpu i ddechrau arni.

1. Cynllunio a gwneud nodiadau

Cyn i chi ddechrau, meddyliwch am y pethau canlynol ac ysgrifennu nodiadau ar gyfer pob un.

- Sgiliau a gofynion y cwrs (edrych mewn prosiectysau)
- Beth sy'n ddiddorol am y cwrs neu'r pwnc
- Eich profiad gwaith, sgiliau, cyflawniadau, gwaith gwirfoddol
- Eich goliau ac uchelgeisiau.

2. Darllen enghreifftiau

Darllenwch ddatganiadau enghreifftiol i roi syniadau i chi. Mae rhai ar gael yn www.applytouni.com a www.studential.com.

Ond peidiwch â'u copïo. Cofiwch mai datganiad "personol" yw e!

3. Sicrhau bod y strwythur yn iawn

Does dim modd penodol o'i ysgrifennu ond bydd strwythur da yn dangos eich bod yn gyfathrebwr da. Efallai bydd ein syniadau isod yn eich helpu i strwythuro eich datganiad.

Dim ond 4000 nod sydd gennych, neu 47 llinell, felly gwnewch y gorau ohonyn nhw!

Gallech gynnwys:

- agoriad trawiadol sy'n hoelio eu sylw;
- darn yn y canol sy'n dweud popeth sydd i'w wybod amdanoch chi wrthyn nhw; a
- diwedd glo sy'n aros yn y cof.

4. Ysgrifennu cyflwyniad cofiadwy

Dywedwch rywbeth sy'n ennyn diddordeb. Ceisiwch ddarbwylllo'r person i ddarllen ymlaen yn lle sganio'ch datganiad yn unig.

5. Ysgrifennu'r canol – Pam rydych chi'n addas ar gyfer y pwnc

Dywedwch pam rydych chi'n ymgeisydd da ar gyfer y pwnc hwnnw. Dangoswch eich angerdd a'ch brwdfrydedd yma. Cofiwch gynnwys y pethau hyn:

- Beth sy'n eich ymddiddori am y pwnc neu'r cwrs a pham?
- Pa sgiliau, profiad, gwobrau neu weithgareddau rydych chi wedi'u gwneud sy'n berthnasol i'r pwnc? Mae enghreifftiau yn cynnwys gwaith rhan-amser, ASDAN a Menter yr Ifanc.
- Beth rydych chi wedi'i ddysgu o'r rhain?
- Cofiwch gysylltu beth rydych chi wedi'i ddysgu â gofynion y cwrs, hynny yw sgiliau a nodweddion.

6. Parhau i ysgrifennu'r canol – Pam rydych chi'n addas ar gyfer Addysg Uwch

Cofiwch gynnwys diddordebau eraill, sgiliau a phrofiadau sy'n dangos eich bod yn addas ar gyfer

Addysg Uwch. Eto, gwnewch yn siwr eich bod yn esbonio beth rydych wedi'i ddysgu o unrhyw brofiad e.e. sgiliau gwaith tîm, cyfathrebu ac ati.

Dylai'r rhain ddangos eich bod yn rhywun:

- dibynadwy, cyfrifol, ymroddgar;
- gallu ymdopi dan bwysau a sefyllfaoedd anodd, hyd yn oed pan fydd problemau'n codi.

Gallech gynnwys uchelgeisiau a goliau ar gyfer y dyfodol yma.

7. Ysgrifennu diwedd glo sy'n sefyll allan

Rhaid i chi orffen gyda rhywbeth cofiadwy. Bydd yr enghreifftiau yn rhoi syniadau i chi.

8. Drafftio ac ailddrafftio

Mae'n anodd ei gwneud yn gywir y tro cyntaf.

Mae'n ddoeth drafftio eich datganiad personol sawl gwaith i chi gael gweld sut mae'ch syniadau'n edrych ar bapur.

Cewch wneud newidiadau os oes angen.

Cewch ofyn i bobl eraill, fel athrawon, cynghorwyr gyrfa a'ch teulu i ddarllen trwyddo gyda chi.

9. Gwirio, gwirio, gwirio!

Gwnewch yn siwr ei fod yn edrych yn iawn a bod dim camgymeriadau ynddo!

- Gwiriwch eich sillafu, atalnodi a gramadeg
- Peidiwch â defnyddio fformatio, fel llythrennau trwm, tanlinellu ac ati.

10. Rhaid i chi beidio â chopïo!

Mae'n dda edrych ar enghreifftiau ond peidiwch â chopïo datganiad neu unrhyw ran ohono. Maen nhw eisiau clywed amdanoch chi a'ch rhinweddau.

Gallech golli'ch lle ar y cwrs os ydyn nhw'n darganfod eich bod wedi copïo hyd yn oed un frawddeg. Bydd ganddyn nhw feddalwedd i wirio hynny, felly peidiwch â chymryd risg!

11. Ac yn olaf, os ydych yn cael trafferth...

Mae ysgrifennu datganiad personol yn anodd i bawb!

Os oes angen mwy o help arnoch i'w ysgrifennu, mae cyngor ar gael ar wefan [UCAS](https://ucas.ac.uk). Mae gwefannau eraill yn cynnwys www.applytouni.com a www.studential.com.

Mae'ch teulu, athrawon a chynghorwyr gyrfa yn gallu helpu hefyd. Am gyngor gan Gyrfa Cymru, ewch i'r dudalen [Cysylltu â ni](#).

Pob lwc!